**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**16 Mawrth 2009**

**Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw**

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

**1.** Cyflwyno'r Dangosyddion Darbodus a'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2009/2010 i'r Aelodau a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw.

**2 CYFLWYNIAD**

**2.1** Cyflwynwyd cyllideb ddrafft 2009/2010 i'r Aelodau i'w chymeradwyo ar 15 Rhagfyr 2008 ac fel arfer byddai hyn wedi'i wneud er mwyn cyflwyno Dangosyddion Darbodus a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gyda'r adroddiad. Fodd bynnag, oherwydd cyfyngiadau amser, nid oeddent yn cael eu cynnwys gydag adroddiad y gyllideb felly maent yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau fel adroddiad ar wahân.

**2.2** Mae'r adroddiad hwn yn dangos y Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2009/10 i 2011/12 ac yn amlinellu'r strategaeth i'w dilyn mewn perthynas â benthyca a buddsoddi cronfeydd yr Awdurdod ar gyfer blwyddyn ariannol 2009/2010. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r cynigion ar gyfer polisi'r Awdurdod am Darpariaeth Isafswm Refeniw. Mae'r papurau amgaeedig yn amlinellu:

(i) rhestr o ddangosyddion darbodus sydd eu hangen gan God Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Atodiad A);

(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2009/2010 yn unol â Chod Ymarfer CIPFA am Reoli'r Trysorlys (Atodiad B);

(iii) y Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw (Atodiad C);

(iv) Ffurf Gwerth Gorau Cyllideb 2009/10 (Atodiad D).

## 3. CEFNDIR

**3.1** Rhaid i'r Awdurdod dalu elfen o'r gwariant cyfalaf sydd wedi cronni bob blwyddyn drwy daliad refeniw (Isafswm y Ddarpariaeth Refeniw – MRP). Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) wedi cyhoeddi Reoliadau newydd i roi sylwadau arnynt, a bydd gofyn i'r Awdurdod Tân gymeradwyo Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw cyn bob blwyddyn.

## 4. ARGYMHELLION

**4.1** Argymhellir bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r:

(i) Dangosyddion Darbodus a nodwyd yn Atodiad A.

(ii) Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol ar gyfer 2009/2010 a amlinellir yn Atodiad B.

(iii) Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw yn Atodiad C.

**DANGOSYDDION DARBODUS AR GYFER AWDURDOD TÂN GOGLEDD CYMRU**

1. Y costau cyfalaf gwirioneddol a wariwyd yn 2007-2008 a'r amcangyfrifon o wariant cyfalaf ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod sydd eisoes wedi'u cymeradwyo gan yr Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ym mis Rhagfyr 2008 yw:

| **2007/08** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwirioneddol** | **Terfynol** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** |
| 3,906 | 5,825 | 5,606 | 4,000 | 4,000 |

2. Amcangyfrifon o ran cymhareb costau cyllido i wariant net ar gyfer y flwyddyn bresennol, a'r blynyddoedd i ddod, a'r ffigyrau gwirioneddol ar gyfer 2007-2008 yw:

| **2007/08** | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
|---|---|---|---|---|
| **Gwirioneddol** | **Terfynol** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** |
| 3.94% | 4.95% | 6.18% | 7.73% | 8.41% |

Mae'r amcangyfrifon o gostau cyllido yn cynnwys ymrwymiadau presennol a'r cynigion yn adroddiad y gyllideb ym mis Rhagfyr 2008.

3. Yr amcangyfrifon o'r cyllid cyfalaf diwedd blwyddyn ar gyfer yr awdurdod ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r blynyddoedd i ddod â'r gofynion cyllido cyfalaf ar 31 Mawrth 2008 yw:

| **31/03/08** | **31/03/09** | **31/03/10** | **31/03/11** | **31/03/12** |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Gwirioneddol** | **Terfynol** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** | **Amcangyfrif** |
| 10,813 | 16,316 | 20,522 | 22,829 | 24,934 |

4. Mae'r gofynion cyllido cyfalaf yn mesur angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca ar gyfer diben cyfalaf. Yn unol ag arfer proffesiynol gorau, nid yw Awdurdod Tân Gogledd Cymru'n cysylltu benthyca gydag eitemau arbennig na mathau o wariant. Ar unrhyw gyfnod mae gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru, sawl llif arian, rhai positif a negyddol, ac mae'n rheoli ei safle ariannol yn nhermau benthyciadau a buddsoddiadau yn unol â'i strategaeth a'r arferion rheoli trysorlys a gymeradwywyd. O ran rheoli arian o ddydd i ddydd, ni ellir gwahaniaethu rhwng arian refeniw ac arian cyfalaf. Mae benthyca allanol yn digwydd o ganlyniad i holl ddeliadau ariannol yr awdurdod ac nid yn unig y rhai sy'n codi o wariant cyfalaf. I'r gwrthwyneb, mae'r gofynion cyllido cyfalaf yn adlewyrchu angen sylfaenol yr awdurdod i fenthyca at ddiben cyfalaf.

5. Mae Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol yn cynnwys y canlynol fel prif ddangosydd ar gyfer bod yn ddarbodus:

"Er mwyn sicrhau mai at ddiben cyfalaf yn unig y bydd y benthyca gwirioneddol yn y tymor canolig, dylai'r awdurdod lleol sicrhau na fydd y benthyca allanol, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y gofynion cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol yn cynnwys yr amcangyfrifon o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r ddwy flynedd ariannol yn dilyn."

Dywed y Trysorydd na chafodd yr awdurdod unrhyw anhawster i gwrdd â'r gofynion hyn yn 2007-2008, ac ni ragwelir unrhyw anawsterau ar gyfer y flwyddyn bresennol na'r blynyddoedd i ddod. Mae'r farn hon yn ystyried ymrwymiadau presennol, cynlluniau presennol a'r cynigion yn adroddiad y gyllideb a gyflwynwyd i gael cymeradwyaeth yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2008.

6. O ran ei ddyled allanol, argymhellir bod yr Awdurdod Tân yn cymeradwyo dilyn y terfynau awdurdodedig canlynol ar gyfer cyfanswm gros buddsoddiadau allanol ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf, a'u bod yn cytuno ar y terfyn y cytunwyd arno'n flaenorol ar gyfer y flwyddyn bresennol gan nad oes angen newid hyn. Mae'r terfynau hyn yn nodi benthyca ar wahân i rwymedigaethau tymor hir fel prydlesau ariannol. Gofynnir i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r terfynau hyn ac i ddirprwyo awdurdod i'r Trysorydd, o fewn y cyfanswm terfynau ar gyfer unrhyw un flwyddyn, i symud rhwng y terfynau unigol y cytunwyd arnynt ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau tymor hir eraill , yn unol â gwerthuso opsiynau a gwerth gorau am arian ar gyfer yr awdurdod. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod nesaf yn dilyn y newid.

| | **Terfyn Awdurdodedig ar gyfer Dyled Allanol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyca | 19,316 | 22,522 | 24,829 | 26,934 |

7. Mae'r Trysorydd yn nodi bod y terfynau awdurdodedig hyn yn gyson gydag ymrwymiadau presennol yr awdurdod, ei gynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb ar gyfer gwariant a chyllido cyfalaf, a gyda'i ddatganiad polisi a'i ymarferion rheoli'r trysorlys a gymeradwywyd. Mae'r Trysorydd yn cadarnhau eu bod yn seiliedig ar yr amcangyfrif o'r hyn sy'n debygol ac yn ddarbodus ond nid y senario waethaf, gyda sgôp yn uwch na hyn ar gyfer rheoli gweithredol, er enghraifft symudiadau arian anghyffredin. Mae strategaethau dadansoddi risg a rheoli risg wedi'u hystyried; yn ogystal â chynlluniau ar gyfer gwariant cyfalaf, amcangyfrifon o'r gofynion o ran cyllido cyfalaf ac amcangyfrifon o ofynion llif arian ar gyfer yr holl ddibenion.

8. Hefyd gofynnir i'r Awdurdod Tân gymeradwyo'r ffin weithredol ganlynol ar gyfer dyled allanol ar gyfer yr un cyfnod. Mae'r ffin weithredol arfaethedig ar gyfer dyled allanol yn seiliedig ar yr un amcangyfrifon â'r terfynau awdurdodedig ond mae'n adlewyrchu'n uniongyrchol ar amcangyfrif y Trysorydd o'r hyn sy'n debygol ac yn ddarbodus ond nid y senario waethaf, gyda sgôp yn uwch na hyn wedi'i gynnwys o fewn y terfyn awdurdodedig i ganiatáu am symudiadau arian anghyffredin, ac mae'n cyfateb i'r uchafswm o ran dyled allanol a ragwelir gan yr amcangyfrif hwn. Mae'r ffin weithredol yn cynrychioli canllaw rheoli allweddol ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn gan y Trysorydd. O fewn y ffin weithredol, mae ffigurau ar gyfer benthyca a rhwymedigaethau tymor hir eraill, mewn dull tebyg i'r terfyn awdurdodedig. Bydd unrhyw newidiadau o'r fath yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Tân yn ei gyfarfod nesaf yn dilyn y newid

**Ffin Weithredol ar gyfer Dyled Allanol**

| | **2008/09** | **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
|---|---|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Benthyca | 16,316 | 20,522 | 22,829 | 24,934 |

9. Dyled allanol wirioneddol yr Awdurdod Tân ar 31 Mawrth 2008 oedd £11,513,428. Dylid nodi nad yw'n bosibl i'r ddyled allanol wirioneddol gael ei chymharu'n uniongyrchol â'r terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol, gan fod y ddyled allanol yn adlewyrchu'r sefyllfa ar un adeg.

10. Wrth benderfynu ar yr adroddiad hwn o'r gyllideb, gofynnir i'r Awdurdod Tân nodi mai'r terfyn awdurdodedig a bennir ar gyfer 2009-2010 (gweler paragraff 6 uchod) fydd y terfyn statudol a benderfynir dan adran 3(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.

11. Yr amcangyfrif o effaith raddol o ran y penderfyniadau buddsoddi cyfalaf arfaethedig yn yr adroddiad hwn o'r gyllideb, uwchlaw penderfyniadau buddsoddi cyfalaf sydd wedi'u gwneud yn flaenorol gan yr Awdurdod Tân yw:

Cynnydd Gwirioneddol yn y cyfraniad gan gynghorau sy'n rhan o'r Awdurdod

| **2009/10** | **2010/11** | **2011/12** |
|---|---|---|
| £123,325 | £691,207 | £1,202,274 |

12. Wrth ystyried ei raglen ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Tân o fewn ei God Darbodus roi ystyriaeth i:

- a yw'n fforddiadwy, e.e. goblygiadau o ran y cyfraniadau gan gynghorau sy'n rhan o'r Awdurdod
- yr angen i fod yn ddarbodus ac yn gynaliadwy, e.e. goblygiadau o ran benthyca allanol
- gwerth am arian, e.e. gwerthuso opsiwn
- rheoli asedau, e.e. cynllunio rheoli asedau

- amcanion gwasanaeth, e.e. cynllunio strategol ar gyfer yr awdurdod
- ymarferoldeb, e.e. a ellir cyflawni'r blaen gynllun.

13. Ffactor allweddol o ran bod yn fforddiadwy yw effaith raddol cyfraniad y cynghorau sy'n rhan o'r Awdurdod, a gallai'r Awdurdod Tân ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer ei raglen fuddsoddi cyfalaf mewn perthynas â'u heffaith wahaniaethol ar y cyfraniadau.

ATODIAD B

**Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a Chynllun Blynyddol Awdurdod Tân Gogledd Cymru ar gyfer 2009-2010**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r gwasanaeth rheoli'r trysorlys yn rhan bwysig o'r ffordd y mae materion yr Awdurdod yn cael eu rheoli'n ariannol yn gyffredinol. Mae'r dangosyddion darbodus yn Atodiad C yn ystyried a yw'r penderfyniadau a wneir ynghylch gwariant cyfalaf yn fforddiadwy, a beth yw eu heffaith, ac maent yn nodi fframwaith gyfalaf gyffredinol y Cyngor. Mae gwasanaeth y trysorlys yn ystyried a yw'r penderfyniadau hyn yn cael eu hariannu'n effeithiol ai peidio. Gyda'i gilydd maent yn rhan o'r broses sy'n sicrhau bod yr Awdurdod yn cwrdd â'r gofyn am gyllideb gytbwys o dan y Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Mae dangosyddion darbodus sy'n benodol i'r trysorlys wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon, y mae angen eu cymeradwyo.

Mabwysiadodd Awdurdod Tân Gogledd Cymru God Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ar 15 Rhagfyr 2003. Mae hyn yn ofynnol yn ôl y Cod Darbodus, sydd wedi'i gyflwyno fel rhan o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r cod yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer aelodau a swyddogion er mwyn lleihau'r risgiau sydd ynghlwm â'r swyddogaeth trysorlys. Mae'n ofynnol yn ôl y cod bod adroddiad ar y strategaeth am y flwyddyn sydd i ddod yn cael i gyflwyno i'r Awdurdod Tân. Mae'r strategaeth a nodir isod yn cydymffurfio â'r cod ac fe'i cyflwynir fel sy'n ofynnol.

## 2. Trosolwg

Mae'r strategaeth yn manylu ar weithgareddau tebygol staff Rheoli'r Trysorlys yn 2009-2010. Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy sy'n gyfrifol am y swyddogaeth trysorlys ar ran Awdurdod Tân Gogledd Cymru fel rhan o gytundeb lefel gwasanaeth. Gan mai cymharol fach yw'r swm ariannol dros ben gan yr Awdurdod Tân, mae rhai buddsoddiadau wedi'u buddsoddi dan enw Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er hwylustod a chedwir cofnodion manwl o'r buddsoddiadau gan staff Rheoli'r Trysorlys. Mae Conwy wedi penodi Butlers fel ymgynghorwyr ar hyn ac mae'r strategaeth yn seiliedig ar eu rhagolygon o'r farchnad fel yr amlinellir yn eu gwahanol gyhoeddiadau.

Bydd yr adroddiad o'r strategaeth yn cynnwys y meysydd canlynol:

(i) Dyled yr Awdurdod a'i ragamcanion o ran buddsoddi;
(ii) Y newidiadau a ddisgwylir mewn cyfraddau llog;
(iii) Strategaeth fenthyca yr Awdurdod;
(iv) Strategaeth fuddsoddi yr Awdurdod;
(v) Dangosyddion darbodus y trysorlys;

(I) **Dyled a Rhagamcanion o ran Buddsoddi 2009/10 – 2011/12**

Y sefyllfa bresennol – Mis Chwefror 2009

Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) - £15,013,428
Buddsoddiadau - £1,910,000

Mae'r gofyniad benthyca'n cynnwys y newidiadau a ddisgwylir yn y Nawdd Cyfalaf Gofynnol (CFR) ac unrhyw ad-daliadau ar ddyledion sydd angen eu hail-ariannu. Yn y tabl isod dangosir yr effaith ar sefyllfa'r trysorlys dros y tair blynedd nesaf. Mae hefyd yn tynnu sylw at y newid a ddisgwylir mewn balansau buddsoddi.

| **£'000** | 2008/09 Diwygiedig | 2009/10 Amcangyfrif | 2010/11 Amcangyfrif | 2011/12 Amcangyfrif |
|---|---|---|---|---|
| **Dyled Allanol** | | | | |
| Dyled ar 1 Ebrill | 11,513 | 16,316 | 20,522 | 22,829 |
| Newidiadau yn y CFR | 5,503 | 4,206 | 2,307 | 2,105 |
| Ail-ariannu dyledion sy'n aeddfe | 0 | 4,395 | 5,500 | 2,500 |
| Addasiad ar gyfer blynyddoe cynt/benthyca ymlaen llaw | -700 | 0 | 0 | 0 |
| Dyled ar 31 Mawrth | 16,316 | 20,522 | 22,829 | 24,934 |
| Newid blynyddol o ran dyled | 4,803 | 4,206 | 2,307 | 2,105 |
| **Buddsoddiadau** | | | | |
| Cyfanswm buddsoddiadau ar Mawrth | 2,000 | 1,800 | 1,600 | 1,400 |
| Newid o ran buddsoddi | -1,070 | -200 | -200 | -200 |

(ii) **Newidiadau a ddisgwylir mewn Cyfraddau Llog**

| **Cyfartaledd %** | **Cyfradd sylfaenol** | **5-mlynedd Gilt** | **20-mlynedd Gilt** | **50-mlynedd Gilt** |
|---|---|---|---|---|
| 2008/09 | 3.9 | 4.2 | 4.8 | 4.5 |
| 2009/10 | 1.0 | 2.4 | 4.8 | 4.7 |
| 2010/11 | 1.7 | 3.2 | 4.9 | 4.8 |
| 2011/12 | 2.4 | 4.0 | 5.1 | 4.9 |

- Mae benthyca PWLB fel arfer rhwng 0.10% a 0.15% yn uwch na'r arennill gilt cyfatebol.

Mae'r rhagolygon o ran cyfradd llog ar gyfer 2008-2009 wedi'u paratoi gan ymgynghorwyr (Butlers) rheoli'r trysorlys yr Awdurdod.
Mae economi'r DU mewn dirwasgiad dwfn, sydd wedi'i waethygu gan gyfuniad o dwf negyddol a datgymaliad y marchnadoedd ariannol. Mewn ymgais i leddfu'r sefyllfa economaidd, mae'r Gyfradd Sail wedi'i gostwng i isafbwynt hanesyddol o 1% gyda'r posibilrwydd cryf y gallai syrthio i ½ % cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd cyfraddau tymor hir

yn dioddef oherwydd grymoedd anghyson - dylai'r dirwasgiad byd-eang wthio cynnyrch bondiau i lefelau is ond byddai dyraniadau gilt trwm gan y llywodraeth wrth iddynt geisio ariannu eu diffyg, yn cyfyngu ar y dirywiad posibl ar gyfer cynnyrch.

(iii) **Strategaeth fenthyca**

Mae'r ansicrwydd cynyddol ynghylch cynnydd mewn cyfraddau llog yn cynyddu'r risgiau sydd yn gysylltiedig â gweithgaredd y trysorlys. O ganlyniad bydd yr Awdurdod yn bwyllog o ran strategaeth y trysorlys.

Disgwylir y bydd risgiau sy'n ymwneud â chyfraddau llog sefydlog tymor hir ar gyfer cyfraddau uwch dros y tymor canolig. Dan y pwerau dirprwyo, bydd y Trysorydd yn benthyca ar sail y dull mwyaf priodol yn dibynnu ar y cyfraddau llog ar y pryd, a gan ystyried y risgiau a ddangosir yn y rhagolygon uchod. Mae'n debyg y bydd y cyfraddau tymor byrrach yn cynnig gwell cyfleoedd. Gallai hyn gynnwys benthyca ymlaen llaw cyn gofynion blynyddoedd i ddod.

Gan ei bod yn debygol y bydd y cyfraddau cynnyrch yn syrthio, bydd y broses o ailstrwythuro'r ddyled yn canolbwyntio ar symud o gyfraddau sefydlog tymor hir i ddyledion tymor byr rhatach, er y bydd y Trysorydd yn monitro cyfraddau a ragwelir er mwyn manteisio ar unrhyw gyfleoedd yn ystod y flwyddyn.

Mae'r dewis o ohirio benthyca a lleihau balansau'r buddsoddiadau hefyd yn cael ei ystyried i leihau risg cyd-bartïon a diogelu yn erbyn y gostyngiad disgwyliedig mewn enillion buddsoddiadau. Er hynny, mae lefel y buddsoddiadau'n dal i syrthio wrth i'r Darpariaethau sy'n cael eu dal gan yr Awdurdod ostwng felly bydd y dewis hwn ond yn cynhyrchu bendithion cyfyngedig.

(iv) **Strategaeth Fuddsoddi/Partïon eraill**

Y brif egwyddor sy'n llywodraethu meini prawf buddsoddi'r Awdurdod yw sicrwydd buddsoddiadau, er bod y cynnyrch neu'r elw ar y buddsoddiad hefyd yn ystyriaeth allweddol.

Gwneir yr holl fuddsoddiadau fel adneuon arian i fanciau, cymdeithasau adeiladu ac awdurdodau lleol. Bydd y benthyciadau'n digwydd drwy un o nifer o gwmnïau brocer a ddefnyddir gan Gonwy a bydd eraill yn cael eu gwneud yn uniongyrchol rhwng y Cyngor a'r sefydliad. Ni fydd yr un buddsoddiad yn fwy na 364 diwrnod a byddant yn unol â rhagolygon diweddaraf y farchnad. O dan Ganllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Buddsoddiadau, mae unrhyw fuddsoddiad sy'n hirach na blwyddyn o ran aeddfedrwydd yn fuddsoddiad amhenodol, ac felly rhaid i'r Awdurdod bennu

terfyn ar y swm i'w fuddsoddi. Yn sgil y nifer fach o fuddsoddiadau gan yr Awdurdod, pennir terfyn buddsoddiadau amhenodol ar sail £2 filiwn.

Bydd y Trysorydd yn cynnal rhestr o gyd-bartïon gan gydymffurfio gyda'r meini prawf canlynol:-

**Terfyn £5m banciau**
Pob banc yn y DU ac Iwerddon a'u his-fanciau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfatebol). Diffinnir hyn ar hyn o bryd fel

| | |
|---|---|
| tymor byr | F1 |
| tymor hir | A |
| cryfder unigol/ariannol | B |
| cefnogaeth | 3 |

Bydd Banciau gyda chyfraddau is na'r rhai yn y tabl uchod yn cael eu defnyddio os yw adnau cyfansawdd yn cael eu diogelu gan warant y llywodraeth.

**Terfyn £5m Llywodraeth Ganol**
Swyddfa rheoli dyled

**Terfyn £2m Awdurdodau Lleol**
Pob un heblaw am y rhai sy'n agored i gyfyngiad treth y cyngor a praeseptau o dan Rhan 1 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

**Cymdeithasau Adeiladu, terfyn £2m**
Cymdeithasau Adeiladu wedi'u graddio (fel gyda'r sector fancio).

Mae'r meini prawf a amlinellir uchod ar gyfer dewis cyd-bartïon yn cynnig agwedd gadarn i fuddsoddi dan amgylchiadau marchnad arferol a gofynnir i Aelodau gymeradwyo'r meini prawf sylfaenol hyn. Er hynny, oherwydd yr amodau eithriadol yn y farchnad, bydd buddsoddiadau'n cael eu cyfyngu i'r cyd-bartïon gydag ansawdd credyd uwch na'r meini prawf isafswm. Bydd hyd y buddsoddiadau hefyd yn cael eu cyfyngu oherwydd ansicrwydd ynglŷn â theilyngdod credyd y cyd-bartïon. Bydd y cyfyngiadau hyn yn parhau i fod mewn grym nes bydd amodau yn y system fancio yn dychwelyd i normalrwydd.

(v) **Dangosyddion Perfformiad y Trysorlys**

Mae tri dangosydd darbodus eraill sy'n berthnasol i'r trysorlys. Eu pwrpas yw sicrhau bod gweithgaredd swyddogaeth y trysorlys o fewn rhai cyfyngiadau, a thrwy hynny reoli risg a lleihau effaith newidiadau niweidiol mewn cyfraddau llog. Er hynny, os bydd y mesurau hyn yn rhy gaeth byddant yn amharu ar y cyfleoedd i leihau costau.

Argymhellir bod yr Awdurdod yn gosod terfyn uchaf ac isaf ar gyfer strwythur aeddfedu ei fenthyciadau cyfradd sefydlog fel a ganlyn:

| | **Terfyn Uchaf** | **Terfyn Isaf** |
|---|---|---|
| Dan 12 Mis | 40% | 0% |
| 12 Mis ac o fewn 24 Mis | 40% | 0% |
| 24 Mis ac o fewn 5 mlynedd | 50% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 75% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 100% | 20% |

Argymhellir bod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r terfynau canlynol cyfraddau llog Sefydlog a Newidiol

| | **% Benthyca** |
|---|---|
| Cyfradd Llog Sefydlog | 55 – 100 |
| Cyfradd Llog Newidiol | 0 – 45 |

## Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw

### Cefndir

1. Y Nawdd Cyfalaf Gofynnol (CFR) yn syml, yw'r gwariant cyfalaf sy'n ddyledus, sydd heb ei dalu o naill ai adnoddau refeniw na chyfalaf ac sy'n dangos angen yr Awdurdod i fenthyca. Mae gofyn i'r Awdurdod dalu elfen o'i wariant cyfalaf bob blwyddyn drwy dynnu o'r cyfrif refeniw (y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw) er ei fod yn cael cymryd taliadau gwirfoddol ychwanegol hefyd.

2. Mae Rheoliadau wedi'u cyflwyno sy'n gosod rheidrwydd ar Awdurdod Tân i gymeradwyo Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw cyn dechrau bob blwyddyn.

### Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw

3. Argymhellir bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw a ganlyn:

   Ar gyfer gwariant cyfalaf a wariwyd cyn 1 Ebrill 2009 ac unrhyw wariant ar ôl hynny, polisi'r Darpariaeth Isafswm Refeniw fydd ad-dalu
   - 4% o'r balans sy'n ddyledus o wariant cyfalaf a wariwyd ar Dir ac Adeiladau
   - Ac ar gyfer Cerbydau, Gwaith, Offer ac Isadeiledd, bydd y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw yn seiliedig ar amcangyfrif o oes yr asedau.

4. Mae'r polisi uchod yn unol â'r Rheoliadau ac mae'n dilyn yr arfer a weithredwyd gan yr Awdurdod Tân ers sawl blwyddyn. Gosodwyd y gyllideb ar gyfer 2009/10, a gymeradwywyd gan yr Aelodau ym mis Rhagfyr 2008 drwy ddefnyddio'r arferion uchod.